# Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Sir y Fflint



2024 - 2030

This document is also available in English.
See English page on our website.

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Rhagair

Yn 2022 cyhoeddodd Cyngor Sir y Fflint ei strategaeth hinsawdd gan addo i weithredu ar frys i leihau allyriadau carbon net i ddim erbyn 2030 ac ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo strategaeth Llywodraeth Cymru i greu economi gynaliadwy a chylchol yn Sir y Fflint.

Mae defnyddio ein hadnoddau prin mewn ffyrdd anghynaladwy'n andwyo'n fawr ar ein hamgylchedd a'r hinsawdd. Mae'n rhaid cymryd camau i ddefnyddio llai o bethau a chefnu ar y drefn arferol o wneud adnoddau, eu prynu a chael gwared arnynt, a mabwysiadu dull cylchol a fydd yn diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd hynny'n gofyn am ymdrech ar y cyd gan bobl y sir, ein gweithlu a'r gymuned ehangach wrth ddefnyddio llai o bethau a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Bydd y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff hon yn pennu ein hamcanion a'i gwneud yn haws i drigolion Sir y Fflint i leihau eu holion traed carbon a'u heffaith ar yr amgylchedd a chyfrannu at greu economi gylchol yn Sir y Fflint.

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw arwain Sir y Fflint at economi gylchol, defnyddio ein hadnoddau mor effeithlon ag y gallwn, cynhyrchu cyn lleied â phosib o wastraff a chydweithio â'n cymunedau wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr amgylchedd gyda'n gilydd. Drwy weithredu strategaeth adnoddau a gwastraff effeithiol, ein nod yw diogelu lles pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, hybu'r economi leol a lleihau ein heffaith ar newid hinsawdd.

# Ein Hamcanion Strategol

1. Bod yn Gyngor di garbon net erbyn 2030 a chefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y Sir
2. Rhoi blaenoriaeth i leihau gwastraff drwy feithrin cyswllt â'n cymunedau'n rhagweithiol
3. Annog ailddefnyddio a thrwsio pethau mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector
4. Cyflawni targedau Llywodraeth Cymru i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio mwy na 70% o'r gwastraff a gasglwn
5. Darparu gwasanaethau effeithlon, dyfeisgar a chost-effeithiol
6. Bodloni gofynion y gyllideb ac osgoi dirwyon
7. Buddsoddi yn ein hisadeiledd fel y gall gwasanaethau ddatblygu a thyfu yn y dyfodol
8. Arfer dulliau gorfodi cymesur ac effeithiol rhag diffyg cydymffurfiaeth.

# Ein gwasanaeth presennol a'r cynnydd hyd yma

## Ble rydym arni nawr?

Darparu gwasanaeth ailgylchu wythnosol i **72,441** o aelwydydd.

Gwario mwy na **£3.4** miliwn ar waredu gwastraff mewn biniau du.

Rheoli dau o hen safleoedd tirlenwi a'r gwaith o gynhyrchu trydan drwy echdynnu methan ohonynt.


Cynhyrchu cyflyrydd pridd wrth gompostio gwastraff gerddi.

Cynhyrchu incwm o **£750k** wrth werthu deunydd y gellir ei ailgylchu.


Gweithredu pump o ganolfannau ailgylchu domestig sy'n ailgylchu **81%** o'r holl ddeunydd.

Cymryd camau gorfodi rhag troseddau gwastraff fel tipio anghyfreithlon a gwastraff ochr y ffordd.

Cyfradd ailgylchu 2022/23:




Targed ailgylchu 2025:




# Y Ddadl o Blaid Newid

Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir y Fflint wedi cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r ffaith ein bod yn defnyddio adnoddau mewn ffordd anghynaladwy.

Mae troi at economi gylchol yn hanfodol er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon a defnyddio llai o adnoddau naturiol, a helpu i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gall fod yn allweddol hefyd wrth wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Ceir crynodeb isod o'r ysgogwyr a'r fframwaith deddfwriaethol a strategol sy'n sail ar gyfer ein bwriad i symud at economi fwy cylchol:

### Ffigur 1: Cyd-destun byd-eang, cenedlaethol a lleol

### LLYWIO MEDDYLFRYD STRATEGOL




## Ysgogwyr Byd-eang

Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd byd-eang a'r consensws bellach yw bod gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr hinsawdd ar y fath raddfa fel ei fod yn andwyo ar bopeth byw. Er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf yr argyfwng mae'n rhaid inni weithredu ar frys i gyfyngu ar y cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5oC uwchlaw'r tymheredd cyn yr oes ddiwydiannol, fel y pennwyd yng Nghytundeb Newid Hinsawdd Paris.

## Ysgogwyr Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed cyffredinol o ddim gwastraff erbyn 2050 yn ogystal â thargedau ailgylchu uchelgeisiol i gynghorau yn y cyfamser.

Mae'r rhain yn dargedau statudol a gellir dirwyo Awdurdodau am beidio â'u cyflawni.

Yn ogystal â'r targedau uchod mae arnom angen sicrhau ein bod hefyd yn gweithio â'n cymunedau i sicrhau bod effaith hirdymor ein penderfyniadau'n gadarnhaol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a'n bod yn addasu ar sail y diwygiadau a gyflwynwyd yn Neddf yr Amgylchedd (2021). Nod y diwygiadau hynny yw gwneud deunydd pecynnu'n haws ei ailgylchu, gwella prosesau ailgylchu, lleihau sbwriel ac annog busnesau i ailgylchu mwy.

## Ysgogwyr Lleol

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd a bod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy weithredu ei strategaeth newid hinsawdd (2022/30).

Mae Cyngor Sir y Fflint dan rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024/25 neu bydd yn wynebu dirwyon ariannol sylweddol. Cyfradd ailgylchu Sir y Fflint yn 2022/23 oedd 61.51%, sy'n bell islaw'r targed o 70% erbyn 2024/25 ac felly mae angen gweithredu ar frys i gynyddu ein cyfraddau ailgylchu ac osgoi dirwyon.


Mae Sir y Fflint yn wynebu diffyg o £32 miliwn yng nghyllideb 2024/25 a chyflwynwyd dulliau posib o ariannu gwerth £18 miliwn o hynny, gan adael diffyg o tua £14 miliwn.

Nid oes llawer ar ôl i'w dorri bellach a heb fwy o gyllid, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys.

# Ysgogwyr Newid

Mewn blynyddoedd diweddar buom yn dra llwyddiannus yn cynyddu cyfradd y deunydd a ailgylchwn yn Sir y Fflint i 61.51% erbyn 2022/23. Hoffem ddiolch i drigolion y Sir am weithio gyda'n gwasanaethau wrth gyflawni'r targed hwn. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed, mae arnom angen gwneud mwy i godi ein cyfradd ailgylchu i 70% a mwy, lleihau ein hôl troed carbon a sicrhau bod yno lai o wastraff yn gyffredinol, annog pobl i ailddefnyddio mwy ac ailgylchu cymaint ag y gallwn er mwyn hyrwyddo economi gylchol.

Mae'r tabl isod yn dangos ein perfformiad ailgylchu ers 2015/16 ac er y cyflawnwyd y targedau cenedlaethol i ddechrau, gwelir bod y Cyngor wedi methu â chyflawni'r targedau a bennwyd yn 2020/21, 2021/22 a 2022/23 ac fel y mae hi ar hyn o bryd, ni fyddwn yn cyflawni'r targed o ailgylchu 70% o'r holl wastraff erbyn 2024/25.




Byddai'r Cyngor yn wynebu dirwyon sylweddol am beidio â chyflawni'r targedau ailgylchu statudol. Mae'r dirwyon am beidio â chyflawni'r targedau yn 2020/21 a 2022/23 yn werth tua £1.13 miliwn ac os na chyflawnwn y targedau yn 2023/24 gallwn wynebu mwy o ddirwyon.

Yn ogystal â hynny, bydd y targedau'n codi eto ar 1 Ebrill 2024 a byddai'r Cyngor yn wynebu dirwyo o £1.2 miliwn y flwyddyn ar sail y cyfraddau ailgylchu presennol.

## Cyfansoddiad y gwastraff

Cynhaliwyd dadansoddiad o'n gwastraff gweddilliol domestig yn 2022 a gwelir y canlyniadau yn y diagram isod.

Dengys y dadansoddiad, er bod Sir y Fflint yn darparu gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr bob wythnos, bod 58% o gynnwys biniau gwastraff gweddilliol yn ddeunydd y gellid ei ailgylchu, boed hynny wrth ymyl y palmant neu mewn canolfan ailgylchu. Mae'r 42% sy'n weddill yn bethau na ellir eu hailgylchu ar hyn o bryd ac sy'n perthyn yn y ffrwd gwastraff gweddilliol




Er mwyn ein helpu i gyflawni'r targed o ailgylchu 70% o'r holl wastraff mae arnom angen tynnu'r deunydd y gellir ei ailgylchu o'r ffrwd gwastraff gweddilliol (bin du) i'r cynwysyddion ailgylchu a roddir ar ymyl y palmant. Mae'r dadansoddiad yn dangos fod yno 13,410 o dunelli o ddeunydd yn y biniau gweddilliol a bod hynny'n cynnwys 6,940 o dunelli o wastraff bwyd y gellid fod wedi'i ailgylchu gyda'n gwasanaeth presennol.

Gan ystyried bod angen atal deunydd y gellir ei ailgylchu rhag mynd i'r ffrwd gwastraff gweddilliol er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu ac osgoi dirwyon ariannol, mae'n hanfodol ein bod yn unioni pethau'n ddiymdroi er mwyn bodloni'r targedau statudol.

Yn y strategaeth hon cyflwynwn ein blaenoriaethau yn hyn o beth, sef lleihau swm ein gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu a datgarboneiddio ein gweithrediadau fel y gallwn gyflawni ein hamcanion strategol.

# Blaenoriaeth 1 - Lleihau Gwastraff ac Ailddefnyddio

Ein blaenoriaeth yw lleihau swm yr holl wastraff yn Sir y Fflint ac ailddefnyddio mwy ohono er mwyn osgoi cael gwared arno. Byddwn yn canolbwyntio ar helpu preswylwyr a busnesau i leihau swm y gwastraff y maent yn ei gynhyrchu a'u galluogi i ailddefnyddio mwy o bethau.

### Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Codi ymwybyddiaeth o leihau gwastraff ac ailddefnyddio ymysg preswylwyr a busnesau
- Annog newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad o blaid atal gwastraff, lleihau ac ailddefnyddio.
- Lleihau swm y gwastraff cyffredinol y mae pob aelwyd yn ei gynhyrchu.
- Ei gwneud yn haws i bobl ailddefnyddio pethau a'u trwsio.

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae'n hanfodol cyfleu negeseuon cyson a phendant er mwyn annog pobl yn gyffredinol i newid eu hymddygiad. Rydym yn cydnabod y dymuna pobl ledled Sir y Fflint fedru gwneud y penderfyniadau iawn ynglŷn â lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Dymunwn feithrin cyswllt yn well â'n preswylwyr ac arfer dulliau mwy effeithiol o gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth mewn ffyrdd sy'n addas i anghenion pobl, gan gynnwys ymgyrchoedd ar garreg y drws, sioeau teithiol, cyfryngau cymdeithasol ac anfon llythyrau at bobl.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Sefydlu cynllun cyfathrebu ar gyfer pob blwyddyn unigol gan nodi gweithgareddau allweddol, themâu hyrwyddo a sut y byddwn yn cyfleu'r rhain i breswylwyr
- Ymgyrchoedd penodol i hyrwyddo'r ffaith y gall pobl ailddefnyddio a thrwsio'u heitemau
- Hyrwyddo mannau gwahanol i roi/gwerthu eitemau y gellir eu hailddefnyddio, gan gynnwys prynwyr ar-lein ac elusennau
- Ymgyrch gyfathrebu benodol a pharhaus ynglŷn â lleihau gwastraff bwyd
- Hyrwyddo sut y gall preswylwyr osgoi eitemau untro
- Defnyddio data i adnabod aelwydydd syn cynhyrchu symiau mawr o wastraff er mwyn targedu negeseuon ynglŷn â lleihau gwastraff ac ailddefnyddio
- Sicrhau bod ein deunydd cyfathrebu ar gael mewn amryw ieithoedd ac yn hawdd cael gafael arno
- Cynnal ymweliadau addysgol i'r ganolfan troi gwastraff yn ynni ym Mharc Adfer ar gyfer myfyrwyr lleol a grŵp buddiant cymunedol.

### Cydweithio â'r Trydydd Sector

- Byddwn yn dal i gefnogi ac ehangu trefniadau cydweithio â'r trydydd sector er mwyn cyflawni ein targedau.
- Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl drwsio pethau sydd wedi torri drwy gefnogi caffis trwsio cymunedol.
- Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl fenthyg eitemau yn lle prynu rhai newydd drwy gydweithio â'r bws benthyca a datblygu 'llyfrgell o bethau'.

### Casgliadau Domestig Ymyl Palmant

- Dal i ddarparu talebau i dalu costau clytiau ailddefnyddiadwy er mwyn lleihau swm y clytiau tafladwy sy'n mynd i finiau gweddilliol.
- Byddwn yn sicrhau y neilltuir eitemau swmpus a gesglir o gartrefi pobl er mwyn eu hailddefnyddio lle bynnag y bo modd.

### Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig

- Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl roi eitemau i'w hailddefnyddio yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig.
- Byddwn yn dal i hyrwyddo ein canolfan ddatgymalu yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig yn Rockliffe (Oakenholt), lle caiff eitemau swmpus eu datgymalu er mwyn lleihau gwastraff.

# Blaenoriaeth 2 - Cynyddu Cyfraddau Ailgylchu

Mae arnom angen cynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a mwy erbyn 2024/25 er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni targedau Llywodraeth Cymru, atal deunyddiau rhag cael eu gwaredu'n ddiangen, hyrwyddo economi gylchol, cyflawni targedau ar gyfer bod yn ddi-garbon net ac osgoi dirwyon ariannol.

### Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Lleihau swm y gwastraff bwyd mewn biniau gwastraff gweddilliol
- Cynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a mwy
- Ei gwneud yn hawdd i breswylwyr ailgylchu eu gwastraff domestig.
- Darparu gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr i'r holl fflatiau
- Sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â'r drefn ddiwygiedig ar gyfer ailgylchu yn y gweithle.
- Atal deunydd ailgylchu rhag mynd i'r bin gweddilliol.
- Casglu mwy o eitemau y gellir eu hailgylchu.
- Colli llai o gasgliadau a darparu gwybodaeth amser real am y gwasanaeth.
- Cyfyngu ar swm y gwastraff gweddilliol a gesglir wrth ymyl y palmant.

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn

Wrth weithio â'n cymunedau byddwn yn darparu gwasanaeth sicr a chynhwysfawr i breswylwyr a busnesau yn Sir y Fflint. Mae'n allweddol ei gwneud yn haws i bobl ailgylchu er mwyn ennyn cyfranogiad preswylwyr a newid ymddygiad yn hirdymor. .

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn hyrwyddo'n gyson sut y gall preswylwyr a busnesau ailgylchu eu gwastraff gan bwysleisio'r hyn y gellir ei ailgylchu a'r hyn na ellir ei ailgylchu.

Gan ddefnyddio data, byddwn yn meithrin cyswllt yn rhagweithiol ag ardaloedd a busnesau yn Sir y Fflint nad ydynt yn perfformio cystal ag eraill, er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau rhag ailgylchu a monitro cyfranogiad er mwyn gallu targedu ymgyrchoedd i wella cyfranogiad.

Byddwn yn meithrin cyswllt mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys

- Ymweld â safleoedd a chnocio ar ddrysau pobl
- Cynnal mwy o sioeau teithiol mewn mannau prysur fel Canolfannau Cysylltu, canolfannau ailgylchu gwastraff domestig, digwyddiadau cymunedol, ffeiriau a marchnadoedd lleol.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol a fideos addysgol yn fwy helaeth.
- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd ailgylchu Cenedlaethol a hyrwyddo Wythnos Ailgylchu.
- Dal i ddosbarthu taflenni a meithrin cyswllt drwy hysbysiadau Treth y Cyngor, calendrau blynyddol ac ymgyrchoedd penodol.
- Gweithio'n agos â landlordiaid/cymdeithasau tai/swyddogion tai Cyngor Sir y Fflint wrth arfer dulliau ar y cyd o wella cyfraddau ailgylchu.

### Casgliadau Domestig Ymyl Palmant

Byddwn yn:

- Annog preswylwyr i ddefnyddio gwasanaeth presennol y Cyngor i gasglu gwastraff wrth ymyl y palmant, gan gynnwys nwyddau hylendid amsugnol fel clytiau babanod a nwyddau ar gyfer anymataliaeth, yn ogystal â gwastraff clinigol.
- Dechrau casglu deunyddiau newydd ar ymyl y palmant, yn enwedig plastig ystwyth, eitemau trydanol bach a thecstilau.
- Cyflwyno ffyrdd newydd o hybu cyfranogiad preswylwyr yn ein gwasanaeth casglu gwastraff bwyd.
- Adolygu'r farchnad ar gyfer eitemau na fedrwn eu hailgylchu ar hyn o bryd a sefydlu contractau newydd.

- Gweithredu llwybrau effeithlon ac effeithiol ar gyfer casglu gwastraff a deunydd ailgylchu, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Adolygu addasrwydd ein cynwysyddion ailgylchu.
- Darparu gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr i'r holl fflatiau yn Sir y Fflint, gan gynnwys casglu gwastraff bwyd.
- Defnyddio technoleg i ddarparu gwybodaeth amser real am amserau casglu.
- Adolygu ein polisi casgliadau â chymorth a defnyddio technoleg er mwyn colli llai o gasgliadau.

- Ein nod yw atal deunydd y gellir ei ailgylchu rhag cael ei waredu'n ddiangen. Gallai aelwydydd ailgylchu 58% o'r deunydd sydd ar hyn o bryd yn mynd i'r biniau du. Byddwn yn annog yr holl breswylwyr i ailgylchu mwy drwy gyfyngu ar swm y gwastraff gweddilliol y gallant gael gwared arno yn y bin du, boed hynny drwy gasglu'n llai aml neu leihau maint y bin. Ategid y newidiadau arfaethedig gan wasanaeth ailgylchu cynhwysfawr ac ymgyrch gyfathrebu helaeth, yn ogystal â chymorth i'r aelwydydd hynny sydd ag angen parhaus am fwy o le yn eu biniau.

### Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon sy'n annog pobl i ailgylchu cymaint â phosib.  .

Byddwn yn:

- Dal i chwilio am farchnadoedd cynaliadwy ar gyfer eitemau sy'n anodd eu hailgylchu.

- Cyflwyno polisi 'dim deunydd ailgylchu mewn gwastraff gweddilliol' fel bod modd canfod y deunydd ailgylchu a'i dynnu allan cyn ei waredu.

- Datgymalu eitemau domestig swmpus na ellir eu hailddefnyddio fel bod modd adennill deunydd y gellir ei ailgylchu a pheidio â chael gwared arno.

### Glanhau Strydoedd

Byddwn yn ymchwilio i ddulliau cynaliadwy i'n gweithwyr glanhau strydoedd a grwpiau codi sbwriel cymunedol fedru didoli eitemau o sbwriel y gellir eu hailgylchu.

### Gwastraff Masnachol

Byddwn yn gweithio â busnesau lleol, grwpiau busnes a phobl flaenllaw er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r drefn newydd sydd ar y gorwel o safbwynt ailgylchu yn y gweithle, drwy fynd ati i feithrin cyswllt a hyrwyddo dulliau o leihau gwastraff ac ailddefnyddio.



# Blaenoriaeth 3 - Datgarboneiddio




Rydym wedi ymrwymo i fod yn Gyngor di-garbon net erbyn 2030 a chefnogi camau gweithredu datgarboneiddio ehangach ledled y Sir.

### Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Bod yn ddi-garbon net erbyn 2030 yn unol â strategaeth newid hinsawdd y Cyngor.
- Sicrhau y caiff gwasanaethau eu caffael yn unol â'r amcanion carbon niwtral.
- Sicrhau bod ein hisadeiledd yn y dyfodol yn garbon niwtral.
- Galluogi preswylwyr i leihau eu holion traed carbon drwy gynhyrchu llai o wastraff.

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyfathrebu â phreswylwyr a busnesau ynglŷn â sut y gallant leihau eu holion traed carbon drwy leihau gwastraff, ei ailddefnyddio a'i ailgylchu. Gwneir hyn drwy ymgyrchoedd penodol ar gyfryngau cymdeithasol, sioeau teithiol a chnocio ar ddrysau pobl.

### Adolygu'r fflyd a'r cynllun trawsnewid

Daw cyfran sylweddol o'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gwastraff o'r cerbydau diesel a ddefnyddir i'w gasglu. Rydym yn ymrwymo i leihau effaith ein fflyd ar yr amgylchedd drwy ddechrau defnyddio cerbydau isel iawn eu hallyriadau.

Byddwn yn llunio cynllun trawsnewid a fydd yn gysylltiedig â'n cynlluniau strategol ar gyfer isadeiledd a'n hamcanion datgarboneiddio.

### Isadeiledd

Datblygu isadeiledd gwastraff sy'n cyflawni'r targedau di-garbon net ac yn ein galluogi i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau.



# Blaenoriaeth 4 - Isadeiledd



Er mwyn darparu gwasanaethau ailgylchu effeithiol ac effeithlon sy'n diogelu ansawdd y deunydd a gesglir ac yn sicrhau y gellir ymateb i dwf mewn gwastraff yn y dyfodol, mae'n rhaid bod yno isadeiledd cadarn.

### Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Sicrhau bod gan y Cyngor reolaeth lwyr ar y deunydd ailgylchu a gesglir gan aelwydydd a busnesau.
- Gwneud y drefn ymarferol o gasglu deunydd a'i drosglwyddo'n fwy effeithlon
- Sicrhau bod ein hisadeiledd yn ddigonol i dderbyn symiau mwy o wastraff yn y dyfodol a deunyddiau newydd.
- Sicrhau bod yr isadeiledd yn bodloni ein targedau ar gyfer bod yn ddi-garbon net ac yn ein galluogi i'w cyflawni.



## Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

### Adolygu isadeiledd

Dymunwn sicrhau fod gennym reolaeth lwyr ar y deunydd a gasglwn a sicrhau bod ein gwasanaethau'n gweithredu'n effeithlon. Byddwn felly'n adolygu'r isadeiledd gyda'r nod o ddiwygio'r achos busnes ar gyfer ein Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Ailgylchu ein hunain ar gyfer cronni a phrosesu deunydd y gellir ei ailgylchu, i'n galluogi i gyflawni ein targedau ar gyfer datgarboneiddio a bod yn ddi-garbon net. Byddwn hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol yng nghanolfannau gwastraff domestig y Cyngor i ganfod a ddylid cynnal y ddarpariaeth fel y mae.

Bydd yr adolygiad yn ystyried:

- Datgarboneiddio a thargedau di-garbon net
- Gallu derbyn symiau mwy o wastraff a deunyddiau newydd yn y dyfodol
- Effeithlonrwydd gweithredol
- Adolygu gofynion isadeiledd y Cyngor
- Cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu newydd.

# Blaenoriaeth 5 - Gorfodi

Dymunwn sicrhau ein bod yn ei gwneud mor rhwydd â phosib i bobl leihau gwastraff o'r cartref, ei ailddefnyddio a'i ailgylchu.

Byddwn yn dal i gefnogi preswylwyr ar eu taith ailgylchu ond byddwn hefyd yn sefydlu trefn deg a chadarn i orfodi polisïau gwastraff ac atal gweithgareddau troseddol fel tipio anghyfreithlon lle bynnag y bo'r angen.

### What We Want to Achieve

- Support residents that struggle to recycle
- Signpost residents to the most effective way of managing their waste.
- Ensure that households participate and recycle their waste.
- Prevent fly tipping, littering and side waste presentation.
- Educate on household and business Duty of Care

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn:

### Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Byddwn yn meithrin cyswllt yn rhagweithiol â phreswylwyr sydd efallai'n ei chael yn anodd rheoli eu gwastraff, gan gynnwys ymweld â chartrefi pobl i gynnig cefnogaeth, cyngor a chymorth ymarferol i ddatrys problemau.

Byddwn yn cyfathrebu â phobl yn gyson ynglŷn â gofynion y Ddyletswydd Gofal ar gyfer gwastraff fel bod preswylwyr a busnesau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Byddwn yn cyfathrebu'n gyson i bwysleisio y bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi rhag tipio anghyfreithlon, taflu sbwriel a gadael gwastraff ar ymyl y ffordd, gan nodi pa gamau a gymerir a'r canlyniadau yn sgil hynny. Byddwn yn cyhoeddi manylion y camau gorfodi hynny sy'n arwain at Hysbysiadau Cosb Benodedig neu erlyniad, fel rhybudd i eraill.

### Casgliadau Domestig Ymyl Palmant

Byddwn yn rhoi'r grym i'r timau casglu nodi aelwydydd sydd efallai'n ei chael yn anodd rheoli eu gwastraff fel y gellir ymyrryd yn gynnar a darparu cefnogaeth cyn i bethau waethygu. .

### Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig

- Dal i herio a gwrthod gwastraff masnachol rhag dod i'r safleoedd.
- Adolygu'r potensial i sefydlu trefn i bobl wneud apwyntiadau er mwyn atal tipio ar draws ffiniau.
- Cyflwyno polisi 'dim deunydd ailgylchu mewn gwastraff gweddilliol' fel bod modd canfod y deunydd ailgylchu a'i dynnu allan cyn ei waredu.
- Cymryd camau yn erbyn y rheiny sy'n bygwth ein staff ar lafar neu'n gorfforol mewn unrhyw ffordd ac yn herio ein polisïau a gweithdrefnau.

### Gorfodi

Ein nod yw:

- Gweithredu trefn deg a rhesymol i ddatrys problemau mewn tri cham, gan gynnwys anfon llythyr o rybudd, defnyddio Rhybuddion Adran 46 a Hysbysiadau Cosb Benodedig.
- Dechrau defnyddio rhybuddion amddiffyn cymunedol, hysbysiadau amddiffyn cymunedol a/neu Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus i fynd i'r afael ag unrhyw droseddau gwastraff sy'n amharu ar y gymuned leol.
- Peidio â goddef unrhyw droseddau gwastraff arwyddocaol fel tipio anghyfreithlon.
- Cymryd camau yn erbyn y rheiny sy'n bygwth ein tîm gorfodi ar lafar neu'n gorfforol mewn unrhyw ffordd.

## Monitro ac Arfarnu

Byddwn yn barnu ein perfformiad wrth gyflawni ein nodau Strategol drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad i olrhain y canlyniadau ar gyfer ein hamcanion a sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau a chynnig gwerth am arian.

| Nod Strategol | Dull o Fesur | Uned | |
|---|---|---|---|
| Lleihau gwastraff yn gyffredinol | Sawl cilogram o wastraff preswyl a gynhyrchir bob blwyddyn fesul unigolyn | Cilogram / unigolyn / blwyddyn | Blynyddol |
| Lleihau gwastraff bwyd yn y ffrwd gwastraff gweddilliol | • Cynnydd yn swm y gwastraff bwyd a gyweinir.<br>• Lleihad ym mhwysau a chrynhoad gwastraff gweddilliol<br>• Cynnydd yn y nifer sy'n cyfranogi o'r drefn gwastraff bwyd | tunelli/blwyddyn | Blynyddol |
| Ailddefnyddio / Ailgylchu | Gwastraff trefol sydd wedi'i gasglu a'i baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio/ailgylchu | Cilogramau/awr/ blwyddyn | Chwarterol |
| Cynyddu Cyfraddau Ailgylchu | Cyfran y deunyddiau a ailgylchir | % | Blynyddol |
| Boddhad â'r gwasanaethau | Arolwg Barn y Cyhoedd | Ansoddol | Blynyddol |